| Cofnodion cyfarfod 8fed o Fai 2024 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr | |
|---|---|
| **PRESENNOL** | |
| Gwilym Evans (Cadeirydd) | Iola Owen |
| Kevin Jones | Helen Sharp |
| Emlyn Baylis | Iwan Harding |
| Louise Price | Bethan Holding |
| | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cynghorydd Gwilym Evans y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol, Cynghorydd Llinos Pritchard, Cynghorydd Trystan Thomas, Cynghorydd Nia Jones a'r Cynghorydd Kim Jones. | **CLERC** |
| 1.1 | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| 1.2 | Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu rhoddi gwasanaeth dwyieithog i'r etholwyr mae angen cyfieithu rhan fwyaf o bolisïau'r Cyngor i'r Saesneg. Cafwyd amcan bris faint fyddai'r rhain yn costio ac oherwydd maint y gost penderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn cyfieithu'r dogfennau o'r gorffennol ond os byddai rhywun yn gofyn am gopi o bolisi neilltuol yn y Saesneg yna byddai'r copi perthnasol hynny yn cael ei gyfieithu pryd hynny. Mae pob polisi o hyn ymlaen i'w gyflwyno yn y ddwy iaith. | |
| 1.3 | Yn dilyn cyfarfod arbennig rhwng Grŵp Datblygu Llanberis a'r Cyngor Cymuned gyda gwahoddedigion o Menter Stiniog penderfynwyd sefydlu Grŵp i edrych ar sut i greu menter/partneriaeth Llanberis. Yn gyntaf bydd angen cael gweithgaredd i ymgysylltu a'r cyhoedd. Y Clerc i drefnu hyn ar gyfer y wefan, tudalen Facebook a hefyd yn y digwyddiad Cymunedol yr Haf. Bydd y Cynghorydd Rhys ap Gwilym yn cadeirio a llywio'r grŵp. Bydd y Grŵp yn cynnwys aelodau o gyrff, grwpiau a chymdeithasau eraill o fewn y pentref. | **CLERC RhapG** |
| 1.4 | Cynllun Adfywio Lleol Bro Peris - derbyniwyd y ddogfen. Roedd cyfarfod am y cynllun wedi ei drefnu ond nid oedd neb yn gallu i fod yn bresennol. Dywedodd y Clerc os oedd yn gallu byddai yn mynychu. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **ADRODDIAD AR FATERION SIROL** | |
| 3.1 | Mae'r Cynghorydd Kim Jones bellach ar famolaeth a ni fydd adroddiad ysgrifenedig am y tro. | |
| **4.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| 4.1 | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Ebrill 2024 a'u derbyn. | |
| **5.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| 5.1 | Cadarnhawyd cofnodion mis Ebrill 2024. | |
| 5.2 | CCTV - dim gwybodaeth am ddyddiad i'r cyfarfod cyhoeddus. Y Clerc i anfon at yr heddwas eto. | |
| 5.3 | Newid Safle Bin Sbwriel Cae Chwarae Lan Llyn - dim dilyniant gan Gyngor Gwynedd, pris am y bin a'r gwasanaeth cludo heb ei dderbyn. Y Clerc i anfon at Gorfodaeth Stryd eto. | **CLERC** |
| 5.4 | Cerflun Coffa'r Chwarelwyr - Dywedodd y Clerc bod Artist lleol wedi ei ddewis i ddylunio'r cerflun. Mae proses rŵan yn symud ymlaen i ymgysylltu a'r gymuned ac i baratoi'r parc bach sydd wedi ei ddewis fel safle i'r Cerflun. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at berchnogion yr | **CLERC** |

| | | |
|---|---|---|
| | arwyddion sydd ar bwys y wal o fewn y Cae Chwarae er mwyn rhoi rhybudd i symud yr arwyddion oddi yno. | |
| 5.5 | Hysbysfwrdd y Fynwent - mae'r hysbysfwrdd bellach wedi ei osod ar y safle. | |
| 5.6 | Cronfa Cymunedol HBO - dim cyfarfod wedi bod ar y mater hwn hyd yma. Mae'r arian yn parhau gyda Engie hyd nes bydd cyfrif banc newydd y Cyngor yn weithredol. | |
| 5.7 | Campfa Awyr Agored. Mae holiadau wedi cau ac roedd y canlyniadau yn bositif. Bydd angen nawr trefnu cyfarfod gyda Carwyn Williams Parc Padarn i benderfynu ar leoliad. | |
| 5.8 | Coed Doctor - cafwyd gwybodaeth bod arian wedi ei neilltuo ar gyfer rhoi pont newydd yng Nghoed Doctor a gobeithir dechrau'r gwaith yn fuan iawn. | |
| **6.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| 6.1 | Trafodwyd y mater o archwilio blynyddol y llwybrau, yn ddiweddar roedd hysbyseb gan Gyngor Tref Ffestiniog yn cynnig arian i unigolyn i wneud y gwaith. Roedd y Cyngor yn ei weld yn syniad da a bod llawer i unigolion o fewn y pentref yn hoffi cerdded ac yn eu cerdded ac efallai byddem yn hoffi gweithredu a'r rhan y Cyngor. Y Clerc i drefnu. | **CLERC** |
| **7.0** | **Y FYNWENT** | |
| 7.1 | Nid yw'r pwyllgor wedi cyfarfod hyd yma, mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer yr wythnos nesaf. Gweler cofnod o'r cyfarfod yn atodiad 1. | **CLERC** |
| **8.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | Rhif: NP3/15/70B Bwriad: Codi garej ar gyfer fan gwersylla a storfa feiciau Lleoliad: Tir ger Rhes Y Faenol, Llanberis. **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **9.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| 9.1 | Dim i'w adrodd hyd yma | |
| **10.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| 10.1 | Dim i'w adrodd. | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** |

CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

**ATODIAD 1**

**Cyfarfod Pwyllfo y Fynwent, Nos Fercher 16fed o Fai 2024 yn y Ganolfan.**

**Presenoldeb**

Iola Owen
Helen Sharp
Louise Price
Kevin Jones
Gwilym Evans

1. Penderfynwyd ar y prisiau canlynol:

| | PLWYFOLION | ERAILL |
|---|---|---|
| **Hawl Claddu** | 250 | 380 |
| **Ffi Claddu Tro Cyntaf** | 220 | 320 |
| **Ail agor bedd** | 220 | 320 |
| **Hawl Claddu Llwch** | 200 | 250 |
| **Ffi Claddu Llwch** | 200 | 250 |
| **Codi Carreg Fedd** | 250 | 250 |
| **Torri enw yn y dyfodol** | 200 | 200 |
| **Claddedigaeth Plentyn** | di-dal | di-dal |
| **Archwilio'r Gofestr** | di-dal | di-dal |

2. Plwyfolion eglurir fel rhywun sydd wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd cyn dyddiad marwolaeth.

   Eraill fydd rhai sydd ddim wedi byw yn y gymuned am bum mlynedd neu cyn drigolion y plwy sydd bellach yn byw yn rhywle arall (TEBYG I RADDFEYDD MYNWENT LLANRUG!!)

3. Trafodwyd os oes unrhyw ddatblygiad neu newyddion gyda dod o hyd i dir ychwanegol ar gyfer claddu.Dim ar hyn o bryd gyda pawb yn dal i chwilio a holi perchnogion tiroedd cyfagos.

4. Adroddodd y Cynghorydd Iola Owen fod sbwriel yn dal yn broblem yn y fynwent.Cytunwyd i ofyn i'r Clerc roi nodyn unwaith eto yn yr Eco yn gofyn i bawb fynd a'u sbwriel adref gyda hwy. Efallai hefyd y bydd angen arwyddion DIM SBWRIEL ychwanegol yn y fynwent. Cytunwyd i aelodau'r pwyllgor fonitro'r sefyllfa yn ystod y mis nesaf.